



Bwletin Rhieni – Trefniadau Dychwelyd

Annwyl Riant/Warcheidwad

Trefniadau dychwelyd ar gyfer 15fed o Fawrth

Ar y 15fed o Fawrth bydd blwyddyn 11, 12 a 13 yn dychwelyd i safle'r ysgol. Mae'r neges hon yn cynnwys gwybodaeth allweddol ar gyfer blwyddyn 12 a 13. Os oes gennych gwestiynau pellach ar ôl darllen y pecyn gallwch gysylltu gyda'ch arweinydd cynnydd a lles (BI12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk), gyda swyddfa'r ysgol ([ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)) neu fynychu cyfle i holi ar ddydd Gwener

Microsoft Teams meeting

Join on your computer or mobile app

[Click here to join the meeting](#)

Dydd Gwener 12/3/21

1.00-2.00

Gobeithiaf fydd y wybodaeth ganlynol yn defnyddiol i chi

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)

Neges gan Mr John:

Rydw i a'ch holl athrawon yn edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu chi 'nol i'r ysgol ar ddydd Llun. Rydych chi wedi cyflawni cymaint yn barod, ac fe ddylai pob un ohonoch chi fod yn falch iawn o'r ffordd yr ydych chi wedi goresgyn yr heriau sydd wedi cael eu rhoi o'ch blaenau chi hyd yma. Bydd nifer ohonoch wedi bod yn edrych ymlaen yn arw i dychwelyd, tra fydd eraill yn bryderus ac yn ansicr am beth i'w ddisgwyl. Gallwch fod yn ffyddiog bod popeth posib wedi ei wneud i'ch cadw chi yn ddiogel, i roi'r cyfle orau i chi wneud y mwyaf posib o'r amser sydd yn weddill o'r flwyddyn hon, ac i fwynhau bod yng nghwmni eich gilydd unwaith eto.

Mr Ceri John
Arweinydd Cynnydd a Lles (Blwyddyn 12 a 13)

Beth sydd angen trefnu cyn y dydd cyntaf

- **Gwisg ysgol:** Bydd disgyblion yn gwisgo gwisg ysgol ar gyfer dychwelyd i'r ysgol. Deallwn fod plant yn tyfu, ac nid yw siopau dillad ar agor. Os mae hwn yn achosi problem dylech gysylltu gyda'r arweinydd cynnydd a lles.
- **Gorchudd wyneb addas**
- **Bwyd:** Yn ystod yw wythnos yn dechrau'r 15fed ni fydd y ffreutur ar agor. Bydd angen pecyn bwyd ar ddisgyblion am yr wythnos. Bydd disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn arian am y prydau hyn o'r cyngor.
- Unrhyw offer sydd wedi ei fenthg o'r ysgol i'w ddychwelyd.

Beth fydd angen ar gyfer y diwrnodau cyntaf

- Offer / llyfrau ar gyfer WYTHNOS 2 o'r amserlen. Bydd disgyblion yn dilyn eu hamserlenni arferol, er fod cyfle i gael ychydig mwy o amser gyda'r tiwtor ar ddechrau'r dydd yn y dyddiau cyntaf.

Cyrraedd yr ysgol

Bydd trafniadaeth ysgol yn rhedeg fel arfer o'r 15fed Mawrth ymlaen ar gyfer disgyblion sy'n gymwys. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi gludo'ch plentyn i'r ysgol er mwyn ceisio cadw'r niferoedd sydd ar y bysiau yn isel. Er mwyn lleihau tagfeydd traffig gyda'r bysiau gofynnwn i chi ollwng eich plant ger maes parcio'r ysgol yn hytrach na syth o flaen yr adeilad.

Trefniadau iechyd a diogelwch

Bydd y trefniadau iechyd a diogelwch blaenorol yn parhau. Rydw i wedi atodi pecyn wybodaeth i ddisgyblion sy'n eu hatgoffa o beth sydd angen ei wneud - mae hwn yn cynnwys diheintio dwylo yn rheolaidd, gwirio tymheredd ar ddechrau'r dydd a chadw at barthau penodol o'r ysgol.

Mae profion LFT yn rhan newydd o'r broses. Mae manylion pellach am y broses yn hwyrach yn y neges hon, ond gall disgyblion sydd wedi casglu'r rhain defnyddio'r profion ar nos Sul cyn dychwelyd a bydd disgyblion eraill yn medru derbyn y profion ar ddechrau'r wythnos. Bydd llythyron caniatâd ffurfiol yn cael eu dosbarthu i chi am y profion hyn (i ddisgyblion sydd yn 16 neu'n hyn neu i rieni disgyblion sy'n 14-16).

Mae hefyd disgwyl fod disgyblion yn gwisgo mygydau yn yr adeilad **gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth a'r ystafelloedd gwaith**. Cofiwch fod egwyl rhwng bob gwrs ddwbl ac mae'r rhain yn gyfle i fynd allan a gallant ddefnyddio gwersi di-gyswllt hefyd i gael awyr iach. Nid oes angen iddynt wisgo mwgwd tu allan i'r adeilad. Nid oes rhaid i ddisgyblion y chweched aros ar y safle ar ôl eu gwersi olaf a y dydd, ond nid oes hawl mynd a dod.

Mae'r camau iechyd a diogelwch hyn yn dilyn o'r canllawiau cenedlaethol. Maent yn rhan o asesiad risg sy'n ein galluogi ni fel ysgol gweithredu gyda grwpiau llawn. Heb y disgwyliadau hyn byddai'r ysgol yn gorfod rhedeg gyda grwpiau llai a byddent nhw yn lleihau'r niferoedd byddai'n bosib cynnal yn yr ysgol.

Arholiadau ac asesiadau

Deallaf fod disgyblion yn poeni am y broses asesu a sut bydd hwn yn eu heffeithio. Rydyn ni fel ysgol yn dilyn y canllawiau asesu sydd wedi eu cyhoeddi gan CBAC er mwyn sicrhau ein bod yn deg i ddisgyblion. Bydd athrawon yn defnyddio asesiadau dros yr wythnosau nesaf, ond byddwn hefyd yn defnyddio asesiadau di-arholiad e.e. gwaith llafar neu ymarferol sydd wedi ei gwblhau eisoes. Mae athrawon wedi cynnal asesiadau ffurfiol yn ystod y tymor gyntaf ac os yw'r rhain yn cwrdd â gofynion CBAC bydd athrawon yn medru eu cynnwys fel tystiolaeth hefyd. Ein bwriad yw osgoi sefyllfa ble mae disgyblion yn cael eu hasesu yn fwy na'i dysgu - mae dychwelyd i'r ysgol yn gyfle i sicrhau eu lles ar ôl cyfnod mor anodd ac nid yn gyfle i gael 'haf o asesiadau' yn lle 'haf o arholiadau' arferol.

Bydd y broses asesu yng Nghymru ychydig yn wahanol i Loegr gydag athrawon Cymru yn dod i farn ar raddau cyn dechrau Mehefin, cyn rhannu'r graddau dros-dro gyda chi yn ystod Mehefin. Bydd cyfle wedyn i drafod ac adnabod y rhesymau am bob gradd. Bydd broses apêl ar gael cyn i raddau cael eu hanfon i CBAC. Bydd hwn yn gyfle i ddatrys problemau sy'n codi cyn y canlyniadau ffurfiol.

Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru: Hunan-brofi ar gyfer COVID-19 gyda Phrofion Llif Unffordd

Annwyl Riant,

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai rhaglen wirfoddol o brofion COVID-19 asymptomatig ar gael yn rhad ac am ddim mewn lleoliadau addysg a gofal plant ledled Cymru. Mae'r cynnig hwn ar gael i'r holl staff, dysgwyr ym mlynnyddoedd 10-13 a phob dysgwr mewn colegau.

Ynghyd â'r mesurau rheoli haint sylfaenol rydym wedi eu rhoi ar waith, megis cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo da, bydd y profion yn ein galluogi i ddarparu sicrwydd pellach i gymuned ehangach yr ysgol/coleg.

Nid oes gan hyd at un o bob tri unigolyn sydd wedi'u heintio â COVID-19 unrhyw symptomau ac, felly, gallent fod yn trosglwyddo'r feirws heb yn wybod iddynt. Rhan o'r gwaith o reoli lledaeniad y feirws yw adnabod unigolion heintus sydd heb symptomau a gofyn iddynt hunanynysu. Mae profion Dyfais Llif Unffordd (LFD) wedi'u defnyddio'n helaeth ac yn llwyddiannus i ganfod COVID-19 mewn unigolion asymptomatig. Mae cyflymder a chyfleuster profion LFD yn helpu i ganfod y feirws mewn unigolion asymptomatig na fyddent, fel arall, yn cael eu profi. Maent wedi'u cymeradwyo'n glinigol ac maent yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn y feirws.

Am fod y profion yn fwy sensitif gyda llwythi feirysol uwch, mae risg y ceir canlyniad negatif i brawf pan fo llwythi feirysol yn isel (e.e. ar gamau cynnar haint). Dyna pam yr argymhellir y dylid cynnal dau brawf LFD gyda bwch o 3-4 diwrnod rhyngddynt, ar ddydd Sul a dydd Mercher neu brofion rheolaidd, er mwyn gwella cyfraddau canfod drwy nodi unrhyw achosion na chawsant eu canfod yn ystod y prawf cyntaf ac unrhyw heintiau newydd.

Os byddwch yn cael canlyniad prawf positif gan ddefnyddio LFD, mae'n debygol y byddwch yn heintus. Bydd rhaid i chi hunanynysu ar unwaith a chael prawf PCR o fewn 24 awr i'ch canlyniad LFD positif. Caiff y broses olrhain cysylltiadau ei sbarduno yn dilyn canlyniad positif i brawf LFD a bydd angen i'ch cysylltiadau agos hunanynysu nes i chi gael canlyniad eich prawf PCR. Os bydd canlyniad y prawf PCR yn bositif bydd yn rhaid i chi a'ch cysylltiadau agos hunanynysu.

Ni ddylid ystyried bod canlyniad negatif i brawf LFD yn fodd i lacio neu anwybyddu'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol na mesurau atal haint eraill y bwriedir iddynt leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Mae prawf LFD yn adnodd ychwanegol sy'n cyfrannu at leihau'r risg honno.

Sut mae'r profion yn gweithio.

Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan, bydd angen i chi lenwi a dychwelyd ffurflen gydsynio. Yna byddwch yn trefnu gyda'r ysgol neu goleg i gasglu pecyn o brofion LFD a fydd yn eich galluogi i hunan-brofi gartref. Dylid gwneud y prawf 3 neu 4 diwrnod ar wahân, ac yn ddelfrydol dylid gwneud y profion mor agos i fynd i'r ysgol/coleg â phosibl. Nid oes angen i'r profion LFD a ddarperir gael eu prosesu mewn labordy a gallant roi canlyniad cyflym mewn tua 30 munud. Ceir canllawiau cynhwysfawr ar hunan-brofi yn y daflen 'Cyfarwyddiadau ar Sut i'w Ddefnyddio' sy'n dod gyda'r pecyn prawf.

Ar ôl i'r prawf gael ei gynnal, rhaid cofnodi'r canlyniad ar-lein ar www.gov.uk/report-covid19-result. Os mae'r canlyniad yn bositif dylid anfon neges e-bost i LFT@penweddig.ceredigion.sch.uk yn syth er mwyn i'r ysgol gwneud trefniadau addas.

Diben y profion

Mae'n bwysig pwysleisio mai diben y polisi profion addysg a gofal plant yw ategu'r mesurau rheoli sylfaenol (fel cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb) sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith i alluogi dysgu / gofal wyneb yn wyneb i barhau ac i:

- Adnabod yn gyflym y rhai sydd ar y safle yn rheolaidd yn ystod oriau dysgu/gofal, sy'n cario'r feirws heb yn wybod iddynt, a gofyn iddynt hunanyysu er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar addysg / gofal wyneb yn wyneb.
- Ategu data canlyniadau profion symptomatig gyda data canlyniadau profion asymptomatig i roi darlun o gyfraddau heintio i weld pa mor effeithiol yw'r mesurau rheoli sylfaenol sydd ar waith a helpu i nodi clystyrau'n gynnar. Yn ogystal ag ystod o ddata arall a chyngor iechyd y cyhoedd, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau polisi cenedlaethol.

Ni ddylid edrych ar y polisi profi ar gyfer addysg a gofal plant fel profion er mwyn medru dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb h.y. nid yw'n amod ar gyfer dod i'r safle neu gael addysg/gofal. Mae'r profion yn gwbl wirfoddol.

Cydsyniad/Preifatrwydd

Dylai pob unigolyn sydd am gymryd rhan sicrhau eu bod yn deall y broses brofi a darllen yr hysbysiad preifatrwydd. Os byddwch yn dewis cymryd rhan, byddwch yn ymrwymo i gynnal y prawf eich hun a darparu eich holl ganlyniadau (negatif neu positif).

Gyda'n mesurau diogelu sylfaenol a'n profion, byddwn yn helpu i leihau lledaeniad y feirws. Felly, rwy'n annog yn gryf bod pob aelod o staff a phob dysgwr sy'n gymwys yn defnyddio y profion. Fodd bynnag, dylai unrhyw un sy'n dewis peidio cymryd rhan barhau i ddod i'r ysgol/ coleg os nad oes ganddynt symptomau.

Dylai pobl sy'n dewis peidio cymryd rhan yn y rhaglen brofi hon ddilyn y canllawiau cenedlaethol arferol ar hunanyysu a dylai unrhyw un gael prawf os bydd yn dangos symptomau.

Trefniadau ail-agor ysgol:

- Bydd safle'r ysgol yn agor am 8.30yb a bydd gwersi yn gorffen am 3.30yp. Ni fydd unrhyw weithgareddau na digwyddiadau ar safle'r ysgol tu allan i'r oriau hyn a **ni fydd mynediad i'r adeilad cyn 8.30yb nac ar ôl 3.30yp er mwyn sicrhau amser glanhau digonol.**
- **Ni ddylid anfon disgybl sy'n dangos un o'r pedwar symptom COVID (Tymheredd uchel, Peswch parhaol newydd, Colli arogl, Colli blas) i'r ysgol,** a bydd yr ysgol yn gwirio tymheredd unigolion wrth iddynt gyrraedd ac ynysu unigolion sy'n dangos tymheredd uchel nes eich bod yn cyrraedd i'w casglu. Bydd yr un drefn ar gyfer unigolyn sy'n arddangos un o'r symptomau yn ystod y dydd.
- Bydd addysg y disgyblion yn digwydd mewn grwpiau cyswllt – bydd blwyddyn 7, 8 a 9 yn gweithio mewn grwpiau dosbarth ac yn defnyddio un ystafell trwy'r dydd; bydd blwyddyn 10 ac uwch mewn grŵp cyswllt o flwyddyn er mwyn galluogi ni i gynnal pynciau opsiwn.
- Bydd ystafelloedd a manau eraill o amgylch yr ysgol yn cael eu glanhau yn rheolaidd. Bydd ystafelloedd yn cael eu glanhau rhwng gwersi gyda grwpiau gwahanol.
- Bydd manau allanol yn cael eu clustnodi ar gyfer grwpiau penodol, a bydd yr amserlen yn parhau i greu amseroedd egwyl a chinio gwahanol i grwpiau gwahanol. Bydd egwyl rhwng bob wers dwbl a bydd hwn yn rhoi cyfle i ddisgyblion fynd allan a gallant tynnu eu mygydau tu allan.
- Ar gyfer y dydd ysgol **bydd disgyblion yn gwisgo gwisg ysgol.** Ni fydd yr ystafelloedd newid ar gael felly bydd disgyblion yn gwisgo cit ymarfer corff ar ddyddiau maent yn cael gwersi ymarfer corff.
- Ni fydd modd rhannu offer felly mae'n bwysig bod disgyblion yn dod a'r offer angenrheidiol bob dydd.
- **Bydd rhaid i ddisgyblion cario gorchudd wyneb bob dydd** a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar drafnidiaeth a phob man yn yr adeilad, gan gynnwys ystafelloedd dysgu.
- Byddwn ni'n darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion diheintio neu olchi eu dwylo yn ystod y dydd a bydd disgwyl iddynt wneud hwn bob tro maent yn dod mewn neu yn gadael yr adeilad.
- Mae polisi ymddygiad yr ysgol wedi ei addasu i adlewyrchu difrifoldeb camymddwyn sy'n medru lledu'r haint.

Profion LFT

Bydd **profion LFT ar gael i ddisgyblion o flwyddyn 10 lan.** Yn wahanol i drefniadau Lloegr ni fydd y profion hyn yn cael eu cynnal yn yr ysgol, ond byddant ar gael i ddisgyblion gwneud adref. Os fydd canlyniad positif bydd y disgybl yn medru archebu prawf PCR trwy'r GIG a bydd canlyniad negatif yn hwn yn meddwl fod y disgybl yn medru dychwelyd i'r ysgol yn syth. Bydd disgyblion yn gwneud y profion ar nos Sul a nos Fercher bob wythnos. Ar gyfer disgyblion sydd dros 16, gall disgyblion rhoi caniatâd ond bydd angen caniatâd rhiant ar gyfer disgyblion iau. Rhannaf fwy o wybodaeth yn y pecynnau wybodaeth dychwelyd.

Os dymunwch gasglu profion cyn i'ch plant dychwelyd i'r ysgol bydd **modd i chi gasglu'r rhain ar ddydd lau 11eg rhwng 2-3 yp neu ddydd Gwener 12fed rhwng 9.30 a 12.30.** Bydd y profion yn cael eu dosbarthu wrth ddrws blaen yr ysgol. Bydd profion ar gael i weddill 11-13 o ddydd Llun, a bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 10 eu casglu yn ystod yr wythnos nesaf.